



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

CYLCHLYTHYR WIBSS

Volume 1 / Issue 1

Cyfrol 1 / Rhifyn 1

Cyflwyno cylchlythyr cyntaf Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru (WIBSS).

Bydd y cylchlythyr hwn yn cael ei ddiweddarau ar ein gwefan o leiaf ddwywaith y flwyddyn, neu pan fydd newyddion penodol i'w adrodd, i roi gwybod i chi am unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'r cynllun a allai fod o ddiddordeb i chi.

TÎM WIBSS

Mae WIBSS yn cynnwys Tîm Cyllid a Thîm Cymorth Hawliau Lles. Gallwch gysylltu â ni ar **02920 902280**.

Pwyswch 1 ar gyfer y Tîm Cyllid neu 2 ar gyfer y Tîm Cymorth Hawliau Lles. Fel arall, gallwch anfon e-bost at WIBSS@wales.nhs.uk

Tîm Cyllid

Rheolwr Cynllun WIBSS: Mary Swiffen-Walker

Swyddog Cyllid

Hawliau Lles a Chymorth

Cynghorwyr Hawliau Lles: Sarah Ferrier & Rebecca O'Callaghan

Swyddog Cymorth: Ryan Clappe

NEWYDDION Y CYNLLUN

Taliad Cynllun Cyfnod 1+ Uwch

Mae WIBSS bellach wedi cyflwyno categori cyfnod 1 + i'r buddiolwyr hynny sydd yn dioddef o haint hepatitis C cronig (Cyfnod 1), ac sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl sylweddol neu straen ôl-drawmatig. Hunanasesiad ydy'r cais ar gyfer y taliad cynllun cyfnod 1 +, felly does dim angen unrhyw fewnbwn meddygol

Gofynnir i fuddiolwyr yn syml a oes ganddynt unrhyw broblemau iechyd meddwl neu straen ôl-drawmatig y maent o'r farn sy'n gysylltiedig â'r ffaith eu bod wedi cael eu heintio drwy

waed neu gynhyrchion gwaed heintiedig; ac a yw'r symptomau'n effeithio ar eu gallu i ymgymryd â gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Bydd taliadau i'r rheiny sy'n bodloni gofynion y Taliad Cynllun Cyfnod 1 + yn cynyddu i'r gyfradd bresennol, sef £18,833 y flwyddyn, ar gyfer y rheiny sydd yn dioddef o Haint Hepatitis (Cyfnod 2) Uwch,

Os ydych chi'n teimlo bod hyn yn gymwys i chi, cysylltwch.

Cynllun Cymorth Seicolegol

Mae WIBSS yn y broses o sefydlu gwasanaeth seicoleg WIBSS, a byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd y gwasanaeth ar gael. Unwaith y bydd y cynllun seicoleg wedi'i sefydlu, bydd ar gael i fuddiolwyr, aelodau o'r teulu ac aelodau o'r teulu sydd mewn profedigaeth.

Buasem yn croesawu unrhyw adborth ynghylch sut rydych yn credu y dylid sefydlu'r gwasanaeth hwn, felly cysylltwch â ni. Mae eich cyfraniad yn werthfawr.

Hawliau Lles

Er bod llawer ohonoch eisoes wedi defnyddio'r gwasanaeth cymorth a ddarperir gan y tîm hawliau lles, mae'n bosibl nad yw rhai ohonoch yn ymwybodol o beth maen nhw'n ei wneud. Felly, yn y cylchlythyrau sydd i ddod, rydym yn gobeithio rhoi rhagflas i chi o'r gweithgareddau sydd yn cael eu cyflawni gan y Tîm Lles.

Cysylltwch os ydych chi'n meddwl y gallai unrhyw un o'r rhain fod o fudd i chi.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi helpu unigolion i hawlio arian ychwanegol (mae hyn yn cynnwys budd-daliadau fel Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Gostyngiad yn y Dreth Gyngor a mwy) nad oeddent yn gwybod bod ganddynt yr hawl i'w cael; aethom i apwyntiadau cartref ar draws y DU i helpu gyda cheisiadau am grantiau; cynorthwyom i gwblhau ffurflenni cymhleth; fe wnaethom eiriol, mewn person, mewn asesiadau budd-daliadau, a stopio buddiolwr rhag cael ei droi allan o'i gartref.

Cysylltwch â ni gydag unrhyw ymholiad, waeth pa mor fawr neu fach – hwn yw eich gwasanaeth **cyfrinachol a diduedd, am ddim.**

Y newyddion diweddaraf ar fudd-daliadau

- Gall Taliad Annibyniaeth Personol eich helpu gyda rhywfaint o'r costau ychwanegol os oes gennych chi afiechyd neu anabledd tymor hir. Mae rhywfaint o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r oedran cymhwyso ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen unrhyw help arnoch, cysylltwch â ni <https://www.gov.uk/pip/eligibility>